Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Gogledd Cymru
# Gyda'n Gilydd
## Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu

## **Bwletin:** Tachwedd 2020


Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council
Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Gwynedd
wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol wrecsam
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru
North Wales Social Care and Well-being Services Improvement Collaborative

# Helo a chroeso

## gan Kathryn Whitfield: Rheolwr y Rhaglen



### Helo a chroeso i'n bwletin diweddaraf.

**Ers dychwelyd at y tîm prosiect ym mis Gorffennaf, rydym wedi rhoi ein cynllun adfer ar waith er mwyn rhoi'r prosiect yn ôl ar y trywydd cywir, gan edrych ar yr hyn y gallwn ei ddarparu yn realistig yn ystod y cyfnod hwn.**

Mae'r tîm i gyd yn gweithio gartref, maent i gyd yn gweithio'n galed i gyflawni prosiectau'n rhithiol a chefnogi partneriaid prosiect i gyflawni eu hamcanion mewn ffordd wahanol.

Yn gyntaf oll, rwyf yn falch iawn o gyhoeddi bod Stephanie Hall wedi ymuno â'r tîm ym mis Medi i ymgymryd â rôl yr Arweinydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol). Bydd Stephanie'n gweithio o bell i gyflawni gwaith ymchwil allweddol, sef: o:

- Mapio tueddiadau presennol mewn lleoliadau ôl-19 i bobl ifanc ag anghenion cymhleth
- Llunio canllawiau arfer da sy'n coladu enghreifftiau o bob rhan o'r rhanbarth o sut y gellir diwallu anghenion datblygu unigol pobl ifanc ag anghenion cymhleth yn y gymuned leol, yn ogystal â chanllaw ar gyfer unigolion a theuluoedd sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o ran darpariaeth.
- Cwblhau dadansoddiad o'r bylchau a'r rhwystrau sy'n atal y grŵp hwn rhag cael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth lleol a gwerthusiad dewisiadau ar sut i oresgyn y rhain.



Os oes gennych chi ddiddordeb yn y darn hwn o waith neu os hoffech chi gysylltu â Stephanie, gallwch anfon e-bost at Stephanie.hall@flintshire.gov.uk.

Os ydych chi'n aelod o deulu, yn ofalwr neu'n unigolyn ag anableddau dysgu ac yn fodlon cael eich cyfweld gan Stephanie i gynorthwyo â chefnogi'r prosiect hwn, anfonwch e-bost ati.

Croeso i'r tîm Stephanie, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda thi!

## Fforwm Darparwyr

**Bu i'n fforwm darparwyr ddechrau cyfarfod dros y we ym mis Mehefin 2020, i ddarparu gofod diogel i bartneriaid y prosiect a darparwyr Gogledd Cymru ddod ynghyd ac edrych ar sut y gallant gefnogi ei gilydd. Mae hyn wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol yn ystod y cyfnod hwn, gan fod prosiectau wedi gorfod cael eu haddasu i'w darparu mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn caniatáu i gyfranogwyr ganfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio yn ogystal â nodi unrhyw ddyblygiad o ran ymdrech. Cynhelir y sesiynau bob 3 wythnos ac mae croeso i bob darparwr ymuno â'r gofod diogel i gael cyngor, rhannu arferion da a rhwydweithio.**

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar werthoedd ac ymddygiad

Ers cynnal ein gweithdai gwerthoedd, mae ethos ein prosiect wedi canolbwyntio ar y canlynol:


- Dylid trin pob unigolyn gydag urddas a pharch.
- Mae llais, dewis, rheolaeth ac annibyniaeth wrth wraidd popeth a wnawn.
- Rydym yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan roi'r unigolyn wrth wraidd popeth a wnawn a'i helpu i gyrraedd eu potensial.
- Rydym bob amser yn onest ac yn dryloyw ac nid oes arnom ni ofn dweud pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda cherddoriaeth a ffilm TAPE a Hijinx i gynhyrchu ffilm yn seiliedig ar yr ethos hwn yn dangos sut beth yw cefnogaeth dda. Bydd gwneuthurwyr y ffilm yn bresennol yng nghynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru i ateb cwestiynau am sut beth oedd bod yn rhan o'r prosiect. Gallwch hefyd weld adborth gan gyfranogwyr yma: **https://gogleddcymrugydangilydd.org/gwerthoedd/.**


Yn ogystal â'r ffilm, mae grŵp bychan o gyfranogwyr wedi bod yn gweithio ar ddatblygu cwrs e-ddysgu, gan ymgorffori rhai o'r gwerthoedd ac ymddygiadau allweddol hyn sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

# Hanes Nick!

**Mae Nick yn rhan o Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam, grŵp a oedd yn ei fynychu'n wythnosol cyn y cyfnod clo. Ar ddechrau'r cyfnod clo nid oedd gan Nick fynediad at TG ac felly nid oedd yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal. Darparwyd iPad i Nick ac roedd yn gallu ymuno o bell drwy Zoom.**



Roedd eisiau cymryd rhan yn y grŵp e-ddysgu a meddyliodd am y cysyniad o "fod ar y trywydd iawn". Gall dysgwyr gamu ar y trên a chael trosolwg o feysydd allweddol sy'n hanfodol i gefnogi pobl ag anableddau dysgu, gan ddod i stop mewn gorsafoedd gwahanol am **gyfathrebu, galluogi** a **chefnogaeth weithredol** a **risg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.** Tynnodd lun o'r trên yma i esbonio ei syniadau ac rydym nawr yn cefnogi Nick i wireddu ei syniad a gwneud i'r trên symud drwy animeiddio.




Mae Nick wedi bod yn greadigol iawn fel rhan o'r prosiect hwn ac mae nawr yn dysgu sgiliau newydd am animeiddio. Mae'r gwaith yn parhau a gobeithiwn y bydd y prosiect e-ddysgu yn fyw ar ein gwefan, llwyfan Dysgu Cymru y GIG a Learning Pool erbyn diwedd y flwyddyn.

Gyda hanesion a fideos gan bobl yng Ngogledd Cymru, rydym wir yn gobeithio y bydd yn adnodd lleol gwerthfawr i godi proffil pobl ag anableddau dysgu, gan ymgorffori rhai o'r egwyddorion allweddol sy'n gysylltiedig â gwerthoedd ac ymddygiadau allweddol.

## Gofalwch am eich Iechyd Gogledd Cymru

Mae ein gwefan wedi bod yn fyw ers tro ac rydym nawr wedi sefydlu grŵp i adolygu'r holl ddogfennau a'r cynllun a gwneud gwelliannau. Dros yr wythnosau nesaf bydd rhai newidiadau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar adborth pobl.

Os oes gennych chi unrhyw adborth, rhowch wybod i ni drwy e-bostio **Sian.croston@flintshire.gov.uk.**




Rydym hefyd wedi comisiynu Shane Howard i greu animeiddiadau syml, byr yn cynnwys Shane y Ci Defaid ynglŷn â bod yn iach ac rydym yn edrych ymlaen at eu rhannu ar y wefan.

Mae Paul Hosker o'r tîm wedi dechrau ar brosiect sy'n edrych ar ddatblygu ffilmiau byr am iechyd corfforol a meddyliol, a bydd y rhain yn cael eu cynnwys ar y wefan.
Os ydych eisiau dysgu mwy am y prosiect hwn, mae croeso i chi anfon e-bost at Paul - **Paul.hosker@flintshire.gov.uk.**

Gobeithiwn y bydd y wefan hon yn safle gwych sy'n caniatáu i unigolion, rhieni a gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol gael gwybodaeth ac adnoddau i hwyluso gwiriadau iechyd a sgrinio i bawb.

Ymwelwch â'r wefan ar https://**www.gofalwchameichiechydgogleddcymru.org/.**

## Ydych chi wedi cael eich Brechiad Rhag Y Ffliw?

**Mae nawr yn bwysicach nac erioed i gadw llygad ar eich iechyd a sicrhau eich bod yn cael brechiad rhag y ffliw. Y gaeaf hwn yw'r gaeaf cyntaf y bydd gan BOB plentyn ac oedolyn gydag anableddau dysgu yr hawl i frechiad rhag y ffliw ac rydym yn annog pob dinesydd i fanteisio ar y cynnig hwn gan eu Meddyg Teulu. Dylai'r dinasyddion hynny sydd â ffobia o nodwyddau ofyn i'w Meddyg Teulu os ydynt yn gymwys i gael brechiad ffliw y gellir ei chwistrellu i fyny'r trwyn.**

Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru astudiaeth sy'n archwilio marwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid ymysg pobl ag anableddau dysgu, sydd unwaith eto'n tynnu sylw at yr anghydraddoldeb iechyd a wynebir gan unigolion ag anableddau dysgu. Mae'n bwysicach nac erioed fod pobl ag anableddau dysgu yn cael eu gweld gan eu Meddyg Teulu os oes ganddynt unrhyw bryderon o ran eu hiechyd

Cewch fynediad i'r adroddiad yma: **https://www.ldw.org.uk/cy/adroddiad-ar-farwolaethau-pobl-ag-anabledd-dysgu-yng-nghymru-o-covid-19/**

Gallwch hefyd weld ein hadnoddau Covid-19 hawdd i'w deall ar wefan Gofalwch am Eich Iechyd: **www.gofalwchameichiechydgogleddcymru.org/coronafeirws**



## Grŵp Facebook Trawsnewid Anabledd Dysgu

**Mae'r grŵp hwn yn parhau i dyfu ac mae ein cyflwynydd newydd, David Wilberforce, yn gwneud gwaith gwych yn cyfweld yr holl westeion sy'n rhan o'n sesiynau Facebook byw. Mae David wedi bod yn dysgu sut i redeg y sesiynau Facebook byw ac rydym yn credu y gallai gael dyfodol disglair iawn ym maes cyflwyno! Ymunwch â'r grŵp i weld rhai o'r cyfweliadau sydd wedi cael eu cynnal hyd yma.**

**https://www.facebook.com/groups/424132108223654**

Mae wedi bod yn gyfle gwych i bawb glywed gan yr unigolion sydd ynghlwm â'r rhaglen, a bydd y tîm yn parhau â hyn yn y dyfodol! Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymddangos ar ein grŵp Facebook, anfonwch neges atom ar **learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk.**

## Lansio Luv2MeetU yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam!

**Mae Luv2MeetU yn asiantaeth gyfeillgarwch a chanlyn ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu neu awtistiaeth 18 oed a hŷn. Caiff yr asiantaeth ei rhedeg gan yr elusen anableddau dysgu, HFT, yn Sir y Fflint. Mae'n cefnogi pobl i wneud ffrindiau, rhannu diddordebau a datblygu perthnasoedd.**

Canlyn dros y we, clwb swper ar-lein a karaoke - dyma rai o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig wrth i wasanaeth cyfeillgarwch a chanlyn cyntaf Sir y Fflint i bobl anabl agor ei ddrysau - dros y we!

Yn wreiddiol, y bwriad oedd cynnal digwyddiadau ar draws ardal Sir y Fflint, ond mae'r gwasanaeth canlyn unigryw hwn wedi trawsnewid ei raglen orlawn o ddigwyddiadau i galendr dros y we ac mae hefyd wedi ymestyn i Sir Ddinbych a Wrecsam.

Gyda'r nod o fynd i'r afael â'r risg o unigedd ac arwahanrwydd a allai effeithio'n benodol ar bobl ag anableddau dysgu yn ystod y pandemig, mae Luv2meetU yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau gan ganiatáu i bobl gysylltu â'i gilydd, gwneud ffrindiau neu gwrdd â rhywun arbennig. Bydd y gwasanaeth cyfeillgarwch yn cynnal oddeutu saith digwyddiad yr wythnos, yn cynnwys cwisau, bingo ffôn, ioga ar eich eistedd, gweithdai celf a chwrdd am ddiod. Bydd y digwyddiadau i gyd yn cael eu cynnal dros y we i sicrhau fod pobl yn gallu dod ynghyd a chymdeithasu heb gynyddu eu risg o heintiau neu o dorri cyfyngiadau cyfnod clo posibl. Yn ogystal â rhoi cyfle i bobl sgwrsio a gwneud ffrindiau, gall aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau megis sesiynau coginio a gallant hefyd gymryd rhan mewn dêts dros y we a dan warchodaeth yn y dyfodol.

## Mae Multi Me wedi dechrau!

**Mae meddalwedd Multi Me yn cael ei dreialu fel rhan o'r ffrwd waith dechnoleg gynorthwyol. Mae Multi Me yn llwyfan rhwydweithio cymdeithasol diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ceir mynediad at Multi Me ar y we drwy borwr gwe. Gellir defnyddio meddalwedd Multi Me ar amryw o ddyfeisiau gwahanol yn cynnwys ffonau clyfar, tabledi, gliniaduron a chyfrifiaduron bwrdd gwaith.**

Er gwaetha'r heriau a achoswyd gan Covid-19, mae Multi Me wedi bod yn datblygu'n dda.

Mae 79 o gyfrifon wedi'u cofrestru fel rhan o'r cynllun peilot hyd yma gydag oddeutu 30 o ddefnyddwyr ag anableddau dysgu, 41 o ddefnyddwyr yn gyfeillion (staff, rhieni, gofalwyr) ac 8 o ddefnyddwyr eraill megis aelodau cylch. Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol. Rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniadau terfynol y prosiect yn gynnar flwyddyn nesaf.

## Lansio Cyfeillion Gigs yng Ngogledd Cymru ym mis Tachwedd!

**Cynhelir lansiad swyddogol Cyfeillion Gigs, a ariennir gan Raglen Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Dewis Cyntaf, ym mis Tachwedd yng nghynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru, 'Pawb'.**



Mae dau gydlynydd wedi cael eu recriwtio hyd yma ac mae gan un ohonynt anableddau dysgu. Mae'r broses ymgeisio nawr ar agor. Os ydych chi eisiau cyfaill gigs neu os hoffech chi wirfoddoli i fod yn gyfaill, gallwch ymgeisio nawr!

Rydym yn chwilio am:
Oedolion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yng Ngogledd Cymru sy'n dymuno mynd i gigs a digwyddiadau a gwneud y pethau maent yn eu mwynhau.
Darganfyddwch fwy a lawrlwythwch ffurflen gais hawdd ei deall yma:
**https://www.ldw.org.uk/project/ffrindiau-gigiau-gig-buddies/**

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Gwirfoddolwyr yng Ngogledd Cymru sy'n frwd dros gerddoriaeth, diwylliant, chwaraeon a'r celfyddydau ac a fyddai'n gwneud Cyfeillion Gigs ardderchog. Darganfyddwch fwy a lawrlwythwch ffurflen gais yma:
**https://www.ldw.org.uk/project/ffrindiau-gigiau-gig-buddies/**

I gael rhagor o wybodaeth am ein Cyfeillion Gigs, cysylltwch â thîm Cyfeillion Gigs Anabledd Dysgu Cymru drwy **e-bostio gigbuddies@ldw.org.uk** neu ffonio **029 2068 1160.**

# Mae Hyfforddiant Rhyw a Pherthnasoedd SPARC bellach ar-lein

**Mae Spac yn hyfforddiant rhyw a pherthnasoedd sy'n rhoi dysg ar waith drwy roi cyfle i bobl ag anableddau dysgu fynychu digwyddiadau cymdeithasol â chymorth ar-lein.**




Mae nifer o sesiynau ar-lein a dyddiadau wedi'u trefnu sy'n canolbwyntio ar dri gweithdy gwahanol.

Gweithdy 1 - **Gweithdy ar Berthnasoedd Iach i Oedolion**

Archebwch yma - **https://www.eventbrite.co.uk/e/sparc-healthy-relationships-workshop-for-adults-tickets-124660044549**

Gweithdy 2 - **Rhyw a Rhywioldeb**

**https://www.eventbrite.co.uk/e/sparc-sex-and-sexuality-workshop-for-adults-tickets-124660913147?aff=erelpanelorg**

Gweithdy 3 - **Cadw'n Ddiogel mewn Perthnasoedd**

**https://www.eventbrite.co.uk/e/sparc-keeping-safe-in-relationships-for-adults-tickets-125532361673?aff=erelpanelorg**

Cliciwch ar y ddolen a dewiswch un o'r dyddiadau i gofrestru.

Bydd y gweithdai hyn i gyd yn hwyl ac yn hamddenol a bydd digon o gyfleoedd i chi ofyn cwestiynau. Ar ddiwedd pob gweithdy bydd 45 munud o amser rhydd i sgwrsio gyda'r bobl rydych yn eu cyfarfod ac efallai i drefnu i wneud pethau eraill.

Mae sesiynau hefyd wedi'u trefnu i ymarferwyr ddod yn hyrwyddwyr yn y gweithle er mwyn cefnogi hawliau a chyfleoedd i oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i gael cyfeillgarwch hapus ac iach, perthnasoedd rhamantus a rhyw.

Cliciwch y ddolen isod i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant rhad ac am ddim hwn.
**https://www.eventbrite.co.uk/e/sparc-workforce-training-tickets-123341007273**

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Gwynedd · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board · Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru North Wales Social Care and Well-being Services Improvement Collaborative

## Bod yn Greadigol gyda Thaliadau Uniongyrchol - Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Prosiect Broceriaeth Cymorth

**Er bod unigolion yn derbyn Taliadau Uniongyrchol ledled Gogledd Cymru, mae'r lefelau o ran arloesi yn amrywio ac yn aml mae diffyg creadigrwydd o ran sut y defnyddir Taliad Uniongyrchol i alluogi canlyniadau unigol. Mae Imagineer yn cynnal y Rhwydwaith Broceriaeth Cenedlaethol, ac yma mae Broceriaid Cymorth yn cael eu hyfforddi a'u hachredu i gefnogi teuluoedd unigol wrth iddynt gynllunio a chyflawni eu canlyniadau drwy ddefnydd creadigol o Daliadau Uniongyrchol a Chyllidebau Cefnogaeth.**

Mae Broceriaid Cymorth yn gweithredu megis arweinwyr annibynnol i bobl, yn eu cefnogi i gynllunio i fyw bywyd o'u dewis. Maent yn gweithio'n uniongyrchol i'r unigolyn, yn ei gefnogi i gadw rheolaeth a chael ystod lawn o ddewis i gyflawni ei amcanion.

Rydym felly wedi trefnu 3 gweminar 'Cyflwyniad i Froceriaeth Cefnogi' a fydd yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

- 3 Tachwedd 10am - 12pm - **Gweminar ar gyfer unigolion, teuluoedd, gofalwyr a sefydliadau cymunedol**
- 10 Tachwedd 10am - 12pm - **Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol**
- 17 Tachwedd 1pm - 3pm - **Uwch Reolwyr Gofal Cymdeithasol**

Anfonwch e-bost at Mark yn defnyddio'r cyfeiriad **Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk** i gofrestru ar gyfer y digwyddiad a chael y ddolen i ymuno ar-lein.

## Hyfforddiant Technoleg!

Ar hyn o bryd, mae Paul Mazurak o'r tîm wrthi'n gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i ddarparu nifer o sesiynau byr ar bynciau megis Diogelwch ar y We, Sgamiau, Cyfryngau Cymdeithasol, Preifatrwydd, Cymheiriaid / Ffrindiau, dros Zoom. Os oes gennych chi ddiddordeb yn unrhyw un o'r sesiynau hyn neu os oes gennych chi syniadau am y math o sesiynau yr hoffech eu gweld, anfonwch e-bost at Paul: **Paul.mazurek@flintshire.gov.uk**

Cadwch lygad ar y wefan **www.gogleddcymrugydangilydd.org/cymryd-rhan** i weld manylion am ddigwyddiadau a hyfforddiant.

# ‘Taflunio’ Sgiliau a Lles yn Nhyddyn Môn

**Mae Tyddyn Môn yn elusen sy’n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu ar Ynys Môn. Wrth wraidd y prosiect hwn mae offer taflunio symudol arloesol a gwobredig (OmiVista Mobi +) sy’n defnyddio gemau a weithredir gan symudiad, cerddoriaeth a gweithgareddau cymdeithasol i gynyddu rhyngweithio cymdeithasol, gweithgarwch corfforol a lles.**


Mae’r apiau sydd ar gael ar y system yn unigryw oherwydd eu hygyrchedd i bobl â galluoedd gwahanol. Mae’r system yn ymateb i symudiad a gall unrhyw un ddefnyddio’r system yn cynnwys unigolion sydd ddim yn gallu symud rhyw lawer. Gellir taflunio’r apiau ar unrhyw arwyneb fflat (llawr, bwrdd, gwely) gan eu gwneud yn benodol hygyrch i oedolion ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol mewn lleoliadau dydd a chartref.

Dywedodd **Michelle Freeman, Prif Swyddog Gweithredol Tyddyn Môn**: “Prynwyd yr offer i’w ddefnyddio yn ein tai Byw â Chymorth ac ar y fferm yn ystod Cyfleoedd Dydd. Ni wnaethom sylweddoli cymaint y byddai’r byd yn newid ar ôl i ni dderbyn y grant a sut y byddai’r prosiect yn helpu gydag effeithiau’r pandemig a’r cyfnod clo. Mae llawer o’r bobl rydym yn eu cefnogi wedi cael cyfle i fwynhau defnyddio’r offer a gyda dros 200 o apiau mae rhywbeth i bawb, o gemau artistig, gemau egnïol a gweithgareddau’n seiliedig ar wybodaeth.”


Edrychwch ar yr offer ar waith yn y ffotograffau isod!

Cyd-gynhyrchwyd y prosiect gyda’r bobl a gefnogir gan yr elusen a gwahoddwyd unigolion sy’n byw â chymorth ac sy’n rhan o’r rhaglen cyfleoedd dydd i gwrdd â chyflenwyr a rhoi cynnig ar y systemau gwahanol sydd ar y farchnad cyn prynu. Defnyddiodd Shirley’r system yn ystod y cyfnod clo gyda’i haelwyd a dywedodd: “Roedd yn rhywbeth gwych i’w wneud yn ystod y cyfnod clo. Roeddem wrth ein boddau’n ei ddefnyddio a’r holl gemau gwahanol.









Roedd Penri'n mwynhau'r gemau pêl-droed orau,roedd Iorwerth wrth ei fodd â'r gêm swigen ac roedd y gêm yn gwneud iddo chwerthin. Roedd yn weithgaredd hwyl i'w wneud gyda'n gilydd."

Dywedodd Nora, aelod o staff a oedd yn cefnogi tenantiaid i ddefnyddio'r system: "Cafodd y tenantiaid y cyfle i ddefnyddio'r system yn eu tai eu hunain." Roedd yr offer yn hawdd iawn i'w osod yn yr ystafell fyw. Fe wnaeth pawb ei fwynhau. Mae'r rhaglenni'n lliwgar, yn ymlaciol ac yn ddifyr iawn. Mae'r tenantiaid yn edrych ymlaen at gael yr offer yn eu cartrefi.

Rwy'n credu ei fod yn ddarn o offer cadarnhaol iawn."

Ar hyn o bryd, mae'r offer yn cael ei ddefnyddio ar draws y cwmni, ac yn y dyfodol bydd y tîm yn Nhyddyn Môn yn datblygu apiau pwrpasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer y system.




## Am offer gwych!







## Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Michelle - Ein Cynrychiolydd Bwrdd Prosiect



**Cefais amser gwych yng nghyfarfod pen-blwydd Pobl Yn Gyntaf Cymru yn 30. Rhoddais gyflwyniad gyda James am Raglen Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru. Roedd yn rhaid i ni ymuno dros Zoom oherwydd y pandemig. Siaradom am yr holl waith yr ydym wedi bod yn ei wneud yng Ngogledd Cymru.**

Rwyf yn rhan o lawer iawn o grwpiau gwahanol fel rhan o'r prosiect ac yn gweithio ar lawer o bethau. Er enghraifft, rwy'n helpu'r tîm i ddatblygu modiwl e-ddysgu ac rwy'n helpu i edrych ar y wefan Gofalwch am eich Iechyd. Rwyf hefyd wedi mwynhau cyfweld gwesteion ochr yn ochr â David Wilberforce ar ein sesiynau Facebook byw. Rwyf yn dal i fwynhau mynychu cyfarfodydd y bwrdd prosiect ac rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gyda Paul Hosker i greu ffilm am fod yn iach!

Rwyf wrth fy modd yn bod yn rhan o'r tîm trawsnewid - mae'n fy nghadw'n brysur iawn ac rwyf wedi dysgu gymaint o bethau newydd yn ystod y pandemig! Mae wedi bod yn braf iawn i gysylltu â llawer o wahanol bobl o bob rhan o Ogledd Cymru.

## Gwerthuso Prosiectau

**Rydym yn parhau i weithio'n agos â'n swyddogion gwerthuso prosiectau. Rydym nawr yn edrych ar yr hyn sydd ei angen i gynnal canlyniadau o fewn Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru yn y dyfodol. Rydym felly yn gweithio gyda'n swyddogion gwerthuso ar gynlluniau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol**

Rydym yn gweithio'n gyson gyda phartneriaid prosiect i asesu canlyniadau o'r ffrydiau ariannu a gwerthuso'r gwaith a ddarperir fel rhan o'r rhaglen. Bydd unrhyw adroddiad neu ddata'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, felly cadwch lygad ar **www.gogleddcymrugydangilydd.org**

**Os oes unrhyw bwnc yr hoffech chi ei weld yn ein bwletin nesaf, anfonwch e-bost at learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk**
neu cysylltwch â Siân drwy e-bostio **Sian.croston@flintshire.gov.uk**

Yn olaf, cadwch yn ddiogel a chadwch mewn cysylltiad